

**CANLLAW AR GYFLOGI
PLANT A PHOBL IFAINC
O OEDRAN YSGOL**



GWASANAETH MYNYCHU'R YSGOL A LLES



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Mae'r daflen yma'n rhoi gwybodaeth i rieni, gofalwyr a chyflogwyr ynglŷn â'r gwaith mae hawl gan blant i'w wneud tra'u bod nhw yn yr ysgol.

Mae plant yn cael eu 'cyflogi' os ydyn nhw'n rhoi cymorth i unrhyw grefft neu alwedigaeth sy'n gwneud elw – mae hynny'n wir pe bai'r plant yn cael eu talu neu beidio. Mae'r un peth yn wir os y rhieni / cynhalwyr yw'r cyflogwyr.

OS OES RHIF YSWIRIANT GWLADOL GAN Y PLANT, OES HAWL GANDDYN NHW I WEITHIO'N AMSER LLAWN?

Nac oes. Hyd yn oed os oes Rhif Yswiriant Gwladol gan y plant, dydy hynny DDIM yn golygu bod hawl ganddyn nhw i adael yr ysgol a gweithio'n amser llawn. Mae disgwyl i blant fod yn yr ysgol hyd at ddydd Gwener olaf fis Mehefin, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol maen nhw'n troi'n 16 mlwydd oed.

PRYD MAE HAWL GAN BLANT YSGOL I WEITHIO?

Mae disgwyl i blant fod yn 13 mlwydd oed er mwyn gwneud unrhyw waith rhan amser.

BETH AM GYFLOG?

Does dim isafswm cyflog ar gyfer plant. Mae disgwyl i rieni / cynhalwyr benderfynu a ydy'r cyflog yn deg ai peidio. Mae hefyd disgwyl i'r cyflogwyr fod yn 'rhesymol'.

PRYD MAE HAWL GAN BLANT I WEITHIO, AC AM BA MOR HIR?

Does dim hawl gan blant ysgol i weithio cyn 7am nac ar ôl 7pm.

	13-14 mlwydd oed	15-16 mlwydd oed
Diwrnodau'r ysgol	2 awr*	2 awr*
Dydd Sadwrn	5 awr	8 awr
Dydd Sul	2 awr	2 awr
Gwyliau'r ysgol	5 awr (Hyd at uchafswm o 25 awr yr wythnos)	8 awr (Hyd at uchafswm o 35 awr yr wythnos)

*Mae hawl gan blant ysgol i weithio y tu allan i oriau'r ysgol yn unig. Mae'n bosibl iddyn nhw weithio am 1 awr cyn mynd i'r ysgol.

Does dim hawl gan blant i weithio mwy na 12 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mae disgwyl i blant ysgol gael o leiaf pythefnos o wyliau yn ystod gwyliau'r ysgol.

PA FATH O SWYDDI MAE HAWL GAN BLANT YSGOL I'W GWNEUD?

Mae hawl gan blant sy'n 13 mlwydd oed i wneud gwaith ysgafn yn unig yn y meysydd yma:

- Gwaith amaethyddol neu arddio;
- Dosbarthu papurau newydd, cylchgronau, taflenni (NID casglu arian);
- Gweithio mewn siop;
- Gweithio mewn siop trin gwallt;
- Gweithio mewn swyddfa;
- Gweithio mewn stablau ceffylau, ffaldau cŵn neu gathdai;
- Gweithio mewn caffi neu fwyty (NID yn y gegin).

Mae hawl gan blant sy'n 14, 15 ac 16 oed i wneud gwaith ysgafn mewn amrywiaeth ehangach o swyddi.

PA SWYDDI DOES DIM HAWL GAN BLANT YSGOL I'W GWNEUD?

Yn ôl yr is-ddeddfau, does dim hawl gan blant, beth bynnag eu hoed, i gael eu cyflogi ar gyfer y gwaith canlynol:-

- Gweithio mewn sinema, theatr, disgo, neuadd ddawns na chlwb nos (oni bai bod trwydded ganddyn nhw i berfformio yno);
- Gwerthu alcohol na'i ddsbarthu;
- Dosbarthu llaeth;
- Dosbarthu olew tanwydd;
- Gweithio mewn cegin fasnachol;
- Casglu sbwriel na'i ddidoli;
- Gweithio'n uwch na 3 metr uwchlaw'r ddaear neu, os yw'r gwaith dan do, gweithio'n uwch na 3 metr uwchlaw'r llawr;
- Gweithio rhywle sy'n eu gadael nhw'n agored i niwed gan ddeunyddiau ffisegol, biolegol neu gemegol;
- Gweithio ym myd diwydiant na ffatri;
- Casglu arian, na chanfaso neu werthu o ddrws i ddrws;
- Gweithio rhywle sy'n eu gadael nhw'n agored i ddeunyddiau ar gyfer oedolion neu sefyllfaoedd eraill sy'n amhriodol i blant;
- Gwerthu dros y ffôn;
- Gweithio mewn lladd-dy, yn rhan yna o siop y cigydd nac yn unrhyw le arall sy'n gysylltiedig â lladd da byw, cigyddiaeth, neu baratoi carcasau neu gig i'w gwerthu;
- Gweithio mewn ffair, arcêd peiriannau chwarae nac unrhyw le arall sy'n cael ei defnyddio ar gyfer rhoi adloniant i'r cyhoedd trwy gyfrwng peiriannau awtomatig, gemau siawns, gemau sgil neu unrhyw ddyfeisiau tebyg;
- Rhoi gofal personol i breswylwyr nac unrhyw gartref preswyl neu gartref nyrsio.

Mae disgwyl i blant gael eu cofrestru â'r Awdurdod Lleol a chael trwydded waith. Pe bai'r plant yn gweithio heb drwydded waith, fydden nhw ddim wedi'u hyswiro ar gyfer anafiadau pe baen nhw'n cael damwain.

YDY HI'N BOSIBL ATAL PLANT RHAG GWEITHIO?

Ydy, mae'n bosibl atal plant rhag gweithio:

- Pe bai'r gwaith yn amhriodol neu'n anghyfreithlon;
- Pe bai'r gwaith yn cael effaith negyddol ar eu gwaith ysgol, eu presenoldeb neu'u hiechyd nhw;
- Pe baen nhw o hyd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr.

SUT MAE CAEL TRWYDDED WAITH?

Mae'r cyflogwyr yn gyfrifol am gael trwyddedau gwaith. Mae ffurflenni cais ar gael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y daflen yma.

CYFLOGWYR

Mae disgwyl i'r cyflogwyr wneud yn siŵr bod unrhyw blant maen nhw'n eu cyflogi yn gwisgo dillad ac esgidiau addas, gan gynnwys dillad diogelwch lle bo hynny'n angenrheidiol. Mae hefyd disgwyl i'r cyflogwyr wneud yn siŵr bod y plant yn cael egwyl (o leiaf 1 awr o egwyl ar ôl 4 awr o waith).

Mae'n bosibl erlyn cyflogwyr pe baen nhw:

- Ddim yn cofrestru'r plant ysgol maen nhw'n eu cyflogi;
- Yn cyflogi plant ysgol i wneud gwaith nad oes hawl ganddyn nhw i'w wneud;
- Yn gadael i blant ysgol weithio y tu allan i'r oriau sydd wedi'u rhestru yn yr is-ddeddfau.

Mae'r cyflogwyr yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles y plant maen nhw'n eu cyflogi. Mae hefyd disgwyl iddyn nhw gynnal asesiadau risg a rhoi gwybod i'r rhieni /cynhalwyr ynglŷn ag unrhyw fesurau rheoli sy'n cael eu gweithredu.

PETHAU PWYSIG I'W COFIO!

Rhieni:

Mae disgwyl i rieni wneud yn siŵr bod eu plant:

- Yn gweithio'n gyfreithlon;
- Yn cadw at yr oriau gwaith sy'n briodol i'w hoedran (gweler tudalen 2)

Plant/Pobl Ifainc:

Mae disgwyl i blant wneud yn siŵr:

- Bod trwydded waith briodol gyda nhw
- Eu bod nhw'n gwisgo'r dillad diogelwch sy'n cael eu rhoi iddyn nhw;
- Dydy'r gwaith ddim yn cael effaith negyddol ar eu presenoldeb na'u cyrhaeddiad yn yr ysgol.

Cyflogwyr:

Mae disgwyl i gyflogwyr wneud yn siŵr:

- Eu bod nhw wedi cyflwyno cais am y trwydded(au) waith briodol
- Eu bod nhw wedi cynnal asesiad risg ac wedi rhoi gwybod i'r plant, a'u rhieni / cynhalwyr nhw, ynglŷn ag unrhyw fesurau sy'n cael eu gweithredu;
- Eu bod nhw wedi rhoi dillad diogelwch priodol;
- Eu bod nhw wedi derbyn trwydded waith gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'r daflen yma'n sôn am y rheolau cyffredinol ynglŷn â chyflogi plant.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyflogi plant, neu wybodaeth ynglŷn â phlant sy'n gweithio ym myd adloniant, cysylltwch â:

Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,

Tŷ Trevithick, Abercynon,

Aberpennar, CF45 4UQ

Ffôn: 01443 744298 • **Ffacs:** 01443 744230

Ebost: aws@rctcbc.gov.uk